

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION  
NOTICE

Dyddiad/Date 20140610

PWNC / SUBJECT

Eitem 6 Dyfodol darpariaeth addysg anghenion arbennig ym Meirionnydd a Dwyfor

Datganodd y Cynghorydd Peredur Jenkins fuddiant personol oherwydd ei fod yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Gader Dolgellau. Roedd yr Aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr Eitem.

*Item 6 The future of special educational needs provision in Meirionnydd and Dwyfor*

*Councillor Peredur Jenkins declared a personal interest as he was a member of the Governing Body of Ysgol y Gader Dolgellau. The Member was of the opinion that it was not a prejudicial interest, and he did not withdraw from the Chamber during the discussion on the Item.*

---

PENDERFYNIAD / DECISION

- Ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion (Cymru) 2013 i ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i safle newydd ym Mhenrhyndeuadraeth ar 1 Medi 2016
- Cynyddu capasiti yr ysgol
- Ychwanegu elfen breswyl i'r ddarpariaeth
- *To commence a process of statutory consultation in accordance with the requirements of the Schools Standards and Framework Act (Wales) 2013, to relocate Ysgol Hafod Lon and Uned Tŷ Aran to a new site in Penrhyndeuadraeth on 1 September 2016*
- *To increase the school's capacity*
- *To add a residential element to the provision*

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Mae Cyngor Gwynedd wedi adnabod yr angen am ysgol Addysg Anghenion Arbennig (AAA) newydd ar gyfer ardaloedd Meirionnydd a Dwyfor yng Ngwynedd fel un o'r prosiectau blaenoriaeth yn ei Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mi fydd yr ysgol newydd yn derbyn unrhyw blentyn sydd â datganiad oherwydd cyflwr cydnabyddedig o ran anghenion addysgol/meddygol, e.e. awtistiaeth, a fyddai ddigon difrifol ym marn arbenigwyr a'r panel cymedroli datganiadau (sy'n cynnwys pennaeth ysgolion Hafod Lon a Phendalar) i gael mynediad at ysgol arbennig. Ni fyddai'r ysgol yn derbyn plant ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol ble nad oes ganddynt gyflwr anghenion addysgol/meddygol yn ogystal.

---

---

Byddai'r cynnig i adeiladu ysgol AAA newydd yn sicrhau y gwireddir Cynllun Strategol 2013 – 2017 y Sir i ddarparu'n gyfartal a theg ar gyfer ei holl drigolion, trwy adeiladu ysgol arbennig newydd yn ne'r sir sy'n sicrhau mynediad cyfartal i ddarpariaeth arbenigol, waeth lle mae disgyblion gydag anawsterau dysgu mwy dwys a lluosog yn byw.

Bydd y datblygiad hefyd yn helpu i gwrdd â'r pedair nod yng Nghynllun Strategol 2013 – 2017 Gwynedd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, '*Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fyw bywydau llawn*' gyda phwyslais arbennig ar flaenoriaethau 1, 2 a 3, a gwell rhagolygon ar gyfer cyflawni'r bedwaredd flaenoriaeth.

- Codi safonau addysgol plant a phobl ifanc;
- Rhoi cyfleoedd cyfartal i grwpiau o blant, pobl ifanc a theuluoedd bregus;
- Gwella addasrwydd y system ysgolion;
- Paratoi pobl ifanc yn well ar gyfer gwaith a bywyd.

Bydd datblygu Ysgol AAA newydd sy'n addas o ran ei lleoliad, yr adeilad, y staff a'r adnoddau yn galluogi'r awdurdod i ymateb yn llawn i hawliau rhieni i ddewis addysg addas i'w plant – boed hynny'n ysgol briflif neu ysgol arbennig (Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001) ac i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb (2008).

Bydd y datblygiad hwn hefyd yn cydymffurfio â pholisi Iaith Gymraeg a Strategaeth Iaith ddiweddaraf Cyngor Gwynedd wrth sicrhau bod y Cyngor yn bodloni hawl y disgyblion hyn i dderbyn eu haddysg yn eu hiaith gyntaf, ac y perchir dymuniadau eu rhieni.

Er mwyn adnabod ac asesu opsiynau posib ar gyfer darpariaeth addysg AAA yn y dyfodol ym Meirionnydd a Dwyfor, penderfynwyd sefydlu Gweithgor i drafod yr angen am y newid, anghenion AAA yr ardal yn y dyfodol, a chytuno ar opsiynau posib a fyddai'n bodloni'r anghenion hynny. Roedd aelodau'r Gweithgor yn cynnwys swyddogion Cyngor Gwynedd o'r Adran Addysg a'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynghorwyr Lleol a diddordeb yn maes AAA, cadeirydd corff llywodraethu Ysgol Hafod Lon, pennaeth Ysgol Hafod Lon a'r unigolyn cyfrifol am Uned Tŷ Aran, pennaeth Ysgol y Gader, Dolgellau, Swyddog Teulu a Phobl Ifanc Scope Cymru a Swyddog Iechyd Plant Cymunedol ar gyfer Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Cytunodd y Gweithgor ar restr hir o wyth opsiwn posib a'u gwerthuso yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o ran buddsoddi. O ganlyniad, cytunwyd ar restr fer o bedwar opsiwn.

Opsiwn 1: Gwneud dim

*Opsiwn 2:* Datblygu Canolfan AAA newydd wedi'i lleoli ym Mhenrhyndeudraeth, yn cynnwys ysgol ar gyfer hyd at 100 o blant, darpariaeth chwe gwely preswyl/egwyl fer gan ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Unedau Tŷ Aran a Thŷ Meirion.

*Opsiwn 3:* Datblygu Canolfan AAA newydd wedi'i lleoli ym Mhenrhyndeudraeth, yn cynnwys ysgol ar gyfer hyd at 100 o blant, darpariaeth chwe gwely preswyl / egwyl

---

---

fer, gan ail-leoli Ysgol Hafod Lon a pharhau â'r ddarpariaeth bresennol yn unedau Tŷ Aran a Thŷ Meirion.

Opsiwn 4: Datblygu Canolfan AAA newydd wedi'i lleoli ym Mhenrhyndeudraeth, yn cynnwys ysgol ar gyfer hyd at 100 o blant, darpariaeth chwe gwely preswyl / egwyl fer, gan ail-leoli Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran a pharhau â'r ddarpariaeth bresennol yn Uned Tŷ Meirion.

Argymhellir ymgynghori ar y model yn Opsiwn 4. Hwn yw'r model sy'n cael ei ffafrio am y byddai'n ateb yr anghenion busnes a ganlyn:

- Datblygu ysgol newydd mewn lleoliad canolog i blant sy'n byw yn ardaloedd Meirionnydd a Dwyfor yng Ngwynedd. Y nod yw agor y darpariaeth newydd ym Mhenrhyndeudraeth fydd yn golygu y bydd yn rhaid i blant AAA o Feirionnydd a Dwyfor deithio pellteroedd tebyg i dderbyn eu haddysg.
- Cynyddu llefydd ysgol AAA ym Meirionnydd a Dwyfor i gynnig darpariaeth i hyd at 100 o blant yn cynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig mwy cymhleth a dwys, gan gynnwys awtistiaeth.
- Datblygu ysgol fydd yn cyrraedd safon Ysgolion yr 21ain Ganrif, y safon cwricwlwm uchaf, gydag adnoddau therapiwtig ac adnoddau amgen sy'n diwallu anghenion plant sydd ag anghenion addysgol arbennig mwy cymhleth a dwys, gan gynnwys awtistiaeth.
- Datblygu ysgol sydd â'r adnoddau angenrheidiol megis pwll hydrotherapi, ystafelloedd synhwyraidd, ystafelloedd therapi adlamu arbenigol (*rebound therapy*), amgylchoedd dysgu allanol therapiwtig, cyfleusterau garddwriaethol a busnesau bychain i wireddu'r model a ffafir.
- Darparu cyfleuster chwe gwely preswyl / egwyl fer i blant a phobl ifanc gydag AAA yng Ngwynedd, ac i Awdurdodau Lleol eraill o bosib.
- Datblygu cyfleuster fydd yn gwasanaethu fel canolfan i ddarparu gofod gweithio proffesiynol i weithwyr allweddol ymgysylltu'n llawn gyda rhieni, staff dysgu arbenigol a staff cefnogol yn rheolaidd.

Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ag argymhelliad yr adroddiad hwn bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 2013 a'r canllawiau yng Nghylchlythyr 006/2013 *Cod Trefniadaeth Ysgolion*. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd gwybodaeth a chanfyddiadau'r asesiadau effaith ar y gymuned, yr iaith ac ar gydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi.

Wedi hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, yn manylu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw. Bydd yn rhaid i'r Cabinet ystyried yr ymgynghoriad, ac yn ddibynnol ar argymhelliad gan y Cabinet, bydd angen penderfynu a oes angen cyhoeddi Rhybudd Statudol i weithredu'r cynnig. Pe bai Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, caniateir cyfnod o fis i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau. Yn dilyn hyn fe fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno er mwyn cael penderfyniad terfynol.

*Gwynedd Council has identified the need for a new Special Educational Needs (SEN) school for the Meirionnydd and Dwyfor areas of Gwynedd as one of the priority projects within its 21st Century Schools Programme.*

---

---

*The new school will cater for any child that has a statement because of a recognised educational/medical need condition e.g autism, which is judged serious enough by experts and the Statement of Educational Needs Moderation Panel (which includes the head of Ysgol Hafod Lon and Pendalar) to require access to a SEN school. The school will not receive children with emotional and behavioural difficulties who do not have educational/medical needs.*

*The proposal to build a new SEN school would ensure that the County's Strategic Plan 2013-2017 to provide equally and fairly for all its residents is realised, in building a new special school in the south of the county which ensures parity of access to specialist provision regardless of where pupils with more profound and multiple learning difficulties may live.*

*The development will also help meet the four aims of Gwynedd's Strategic Plan 2013-2017 for Children and Young People 'Supporting all children and young people to live fulfilled lives' with particular emphasis on the 1<sup>st</sup>, 2<sup>nd</sup> and 3<sup>rd</sup> priorities, and improved prospects for fulfilling the 4<sup>th</sup> priority:*

- Raising the educational standards of children and young people;*
- Equal opportunities for vulnerable groups of children, young people and families;*
- Improving the suitability of the schools system;*
- Better preparing young people for work and life.*

*The development of a new SEN School that is suitable in terms of its location, building, staffing and resources will enable the authority to respond fully to the rights of parents to choose suitable education for their children - mainstream or special school (Special Educational Needs and Disability Act 2001) and to comply with the requirements of the Equality Act (2008).*

*This development will also comply with Gwynedd Council's Welsh Language policy and latest Welsh Language Strategy in ensuring that the right of these pupils to be educated through their first language is met and that the wishes of their parents are respected.*

*In order to identify and assess possible options for the future provision of SEN education in Meirionnydd and Dwyfor it was agreed to set up a Working Group. During numerous meetings the Group discussed the need for change, the future SEN needs in the area and agree possible options that would meet these needs. The Working Group membership consisted of Gwynedd Council officers from the Education and Social Services departments, Local Councillors with an interest in SEN, chair of the governing body of Ysgol Hafod Lon, Head of Ysgol Hafod Lon and responsible person for Uned Ty Aran, Head of Ysgol y Gader, Dolgellau, Scope Cymru Family and Young Persons Officer and Community Children's Health Officer for Betsi Cadwaladr Health Board.*

*The Working Group agreed on a long list of eight possible options and evaluated them against the agreed investment objectives. Consequently, a short list of four options was selected.*

---

---

*Option 1: Do nothing*

*Option 2: Developing a new SEN Centre located in Penrhyndeudraeth, consisting of a school for up to 100 children, a six bed residential/respite provision and closing Ysgol Hafod Lon and the units at Tŷ Aran and Tŷ Meirion.*

*Option 3: Developing a new SEN Centre located in Penrhyndeudraeth, consisting of a school for up to 100 children, a six bed residential/respite provision, relocating Ysgol Hafod Lon and continuing with the current provision at the units at Tŷ Aran and Tŷ Meirion.*

*Option 4: Developing a new SEN Centre located in Penrhyndeudraeth, consisting of a school for up to 100 children, a six bed residential/respite provision, relocating Ysgol Hafod Lon and Uned Ty Aran and continuing with the current provision at Uned Tŷ Meirion.*

*It is recommended that a consultation is held on the model in Option 4. This is the preferred model as it would meet all of the following business needs:*

- Develop a new school with a centralised location for children living in both the Meirionnydd and Dwyfor areas of Gwynedd. We aim to open the new school in Penrhyndeudraeth which will mean that SEN children from both Meirionnydd and Dwyfor would have to travel similar distances to receive their education.*
- Increase SEN school places in Meirionnydd and Dwyfor to offer provision for up to 100 children including those with more complex and profound special educational needs, including autism.*
- Develop a school that will meet the 21<sup>st</sup> Century Schools standard, the highest standard of curriculum, with alternative and therapeutic resources that meet the needs of children with more complex and profound special educational needs, including autism.*
- Develop a school with the required resources such as a hydrotherapy pool, sensory rooms, specialist rebound therapy rooms, therapeutic external learning environments, horticultural and small business facilities to realise the favoured model.*
- Provide a six bed residential/respite facilities for children and young people with SEN in Gwynedd, and possibly other Local Authorities.*
- Develop facility that will serve as a central hub to provide professional working space for key workers to fully engage with parents, specialist teaching staff and support staff on a regular basis.*

*If the Cabinet decides to move ahead with the recommendations in this report, a period of statutory consultation will need to be held in accordance with the Schools Standards and Framework Act 2013 and the guidance in the 006/2013 Schools Organisation Proposals Circular. During the consultation*

---

---

*period information and the findings of the community, language and equality impact assessments will be published.*

*Subsequently, a further report will be submitted to the Cabinet, detailing the results of that consultation. The Cabinet will have to consider the consultation, and subject to a recommendation by the Cabinet, a decision will be made whether a Statutory Notice should be published to implement the proposal. If a Statutory Notice is published, a period of 1 month will be allowed for any objections to be submitted. Following this a report will be submitted for a final decision.*

---

**Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-**

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg, trafodwyd y ffaith fod y datblygiad hwn yn unol ag amcanion cyffredinol y Cyngor o roi cyfle teg a chyfartal i bob disgybl ledled y Sir a'r ffaith fod datblygiad sylweddol fel hwn yn digwydd mewn cyfnod o gyni aruthrol. Eglurwyd bod yr ysgol newydd hon yn mynd i roi buddion lu i'r disgyblion a diolchwyd i'r swyddogion am eu holl waith caled yn ystod oes y prosiect hyd yn hyn.

*Following the report being submitted by the Cabinet Member for Education, a discussion was held on the fact that this development was in accordance with the Council's general aims of providing a fair and equal opportunity to all pupils across the County and the fact that such a substantial development was taking place during a time of severe austerity. It was explained that this new school would provide endless benefits to the pupils and the officers were thanked for all of their hard work during this project.*

---

**Barn y Swyddogion Statudol / The views of the Statutory Officers:-**

**1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-**

Mae'r adroddiad yn ei wneud yn glir bod yr achos dros y newid sydd yn cael ei argymhell yn un clir a synhwyrol ac mae'r Pennaeth Cyllid yn nodi'r ystyriaethau ariannol yn glir yn ei sylwadau. Nid oes gennyf unrhyw beth pellach i'w ychwanegu at yr adroddiad heblaw i nodi fy nghefnogaeth i'r argymhelliad.

*The report makes it clear that the recommended case for change is clear and sensible and the Head of Finance Department notes the financial considerations clearly in his comments. I do not have anything further to add to the report except to note my support to the recommendation.*

**2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-**

Cafwyd mewnbyn cyfreithiol i'r trafodaethau wrth ddatblygu'r cynigion ac rwy'n fodlon a'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb a chyfreithlondeb.

*Legal input was provided whilst developing the proposals and I am content with the recommendation from a propriety and legality perspective.*

---

---

### 3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Nodaf mai pwrpas yr adroddiad gerbron yw sicrhau penderfyniad y Cabinet i gynnal cyfnod ymgynghori statudol er mwyn datblygu ysgol arbennig newydd ym Mhenrhyndeudraeth gyda darpariaeth breswyl ac egwyl fer. Rwy'n cefnogi'r bwriad i ad-drefnu ysgolion mewn modd teg a rhesymegol, er gwaetha'r her o ymdrechu i gyflawni'r amcanion yma mewn cyd-destun ariannol hynod heriol. Gyda £6.2m o arian grant cyfalaf yn y fantol, mae'n amlwg byddai risgiau wrth oedi ac mae'r adroddiad yn adnabod rhai buddion referniw posib wrth symud ymlaen.

O ran oblygiadau cyfalaf y cynllun, nodaf fod rhan 2.2 o'r adroddiad yn crybwyll fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo'r cam cyntaf o'r achos busnes ar gyfer denu grant o'u "Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif" - h.y. mae'r Llywodraeth wedi cymeradwyo'r "achos busnes strategol amlinellol" roedd yn cynnwys yr achos dros newid, anghenion busnes, a'r gwerthusiad opsiynau. Ymhellach, cadarnhaf fod Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r arian cyfatebol angenrheidiol - h.y. mae'r Cyngor wedi neilltuo £6.2m, sef 50% o'r costau cyfalaf, ar gyfer gweithredu'r cynllun yma.

O ran oblygiadau ariannol parhaol (cyllideb referniw blynyddol) sy'n deillio o'r cynllun a ffafrir, mae rhan 6.5 o'r adroddiad yn dangos sut gallasai'r cynllun arwain at arbediad blynyddol "posib" o £101,574. Wrth gwrs, mae hynny i'w groesawu yn yr hinsawdd ariannol bresennol, er dylid nodi'r risg (sydd wedi'i adnabod yn rhan 6.6 a 6.7 o'r adroddiad) gan nad oes sicrwydd bydd modd denu'r incwm all-sirol perthnasol i'r Cyngor. Yng nghyd-destun y cyfle a'r risg yma, deallaf fod yr Adran Addysg ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi ystyried y cynllun yn drylwyr o fewn eu strategaeth arbedion, a'u bod yn glir mai'r Adranau hyn fydd yn gyfrifol am ganfod unrhyw ddiffyg yng nghostau rhedeg yr ysgol newydd.

*I note that the purpose of the report is to secure a decision by the Cabinet to conduct a period of statutory consultation in order to develop a new special education needs school in Penrhyndeudraeth to include a residential and respite facility. I support the intention to reorganise schools in a fair and logical manner, despite the challenge to try and do this in a very challenging financial context. With a capital grant of £6.2m in the balance, it is clear there will be risks with any delays and the report recognises some possible future revenue benefits.*

*From the project's capital perspective, I note from section 2.2 of the report that the Welsh Government has already approved the first stage of the business case to attract a grant from the '21st Century Schools Programme', that is, the Government has approved the outline strategic business case which included the case for change, business needs and option appraisal. In addition, I confirm that the Council's Asset Management Plan has already committed to provide the required match funding, that is, the Council has reserved £6.2m, which is 50% of the capital cost, for realising this project.*

*From the continuous funding perspective (annual revenue budget) resulting from the preferred option, section 6.5 of the report shows how the project "could" result in annual savings of £101,574. Of course, that is to be welcomed in the current financial climate, though the risk should be noted (as recognised in sections 6.6 and 6.7 of the report) that there is no guarantee of attracting the income from other counties to the Council. In the*

---

---

*context of this risk, I understand that the Education Department and Children and Supporting Families Department have thoroughly considered the scheme within their savings strategy, and it is clear that these departments will be responsible for addressing any deficit in the revenue costs of the new development.*

**4. Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol / Statutory Director of Social Services:**

Cefnogaf y cynnig gerbron ar gyfer argymhell cychwyn cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig o ddatblygu ysgol addysg anghenion arbennig newydd ym Mhenrhyndeudraeth a fyddai'n cynnwys darpariaeth preswyl ac egwyl fer. Byddai darpariaeth breswyl ac egwyl fer lleol fel rhan o'r datblygiad yn sicr o wella canlyniadau I blant sydd ar hyn o bryd yn cael eu lleoli mewn darpariaethau tu allan i'r Sir ac yn cynnyddu'r gallu i gynnig egwyl fer i gefnogi teuluoedd yn lleol.

*I support the proposal to commence a period of statutory consultation to develop a special educational needs school in Penrhyndeudraeth that will include a residential and respite provision. A residential and local respite provision as part of the development would certainly improve results for children who presently have to be placed in provision outside of the county and will increase the ability to offer respite provision to support local families.*

---

**Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member:**

Diolchodd yr aelod lleol, y Cyng. Peter Read am y cyfle i gael mynychu cyfarfod y Cabinet i fynegi barn am y datblygiad hwn. Dywedodd ei fod yn bleser ganddo weld y prosiect hwn yn dod yn ei flaen ar ôl blynyddoedd o waith caled. Cyfeiriodd at y ffaith fod enw Hafod Lôn yn gyfystyr â gofal ac addysg dda ledled Cymru a nododd bod angen meddwl yn ofalus wrth roi enw ar yr ysgol newydd hon.

*The local member, Councillor Peter Read thanked the committee for the opportunity to attend the Cabinet meeting to express his opinion on this development. He said that it was a pleasure for him to see this project progressing after many years of hard work. He referred to the fact that Hafod Lon's name was synonymous with good care and education across Wales and noted that there was a need to take great care in the naming of this new school.*

---



TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION  
NOTICE

Dyddiad/Date 20140610

PWNC / SUBJECT

Eitem 7 Cyfrifon Terfynol 2013/14 – Alldro Refeniw

*Item 7 Final Accounts 2013/14 – Revenue Outturn*

---

PENDERFYNIAD / DECISION

- 1.1 Nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2013/14.
  - 1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen, lle'n briodol, fel a restrir yn Atodiad 1 o'r adroddiad, gan gynnwys cymeradwyo i'r Adran Ymgynghoriaeth gael cario'r tanwariant llawn o £120k ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd, fel eithriad i'r arfer o'i gyfyngu i £100k, oherwydd natur masnachol y gwasanaeth a lefel anrhagweladwy ei incwm.
  - 1.3 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol canlynol -
    - £32k o gronfa tanwariant yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd a
    - £262k o gronfa gorfforaethol neilltuwyd ar gyfer gorwariant posib yn y maes, a
    - £130k o'r arbedion un-tro yn dilyn o ail strwythuro uwch reolaeth perthnasol - sef cyfanswm uchod o £424k i glirio gorwariant Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2013/14, a rhoi dechrau di-ddyled i'r ddwy bennaeth adran newydd ar gychwyn 2014/15.
    - £15k o danwariant yr Adran Gofal Cwsmer i'w neilltuo er mwyn creu cronfa costau diswyddo penodol, i baratoi ar gyfer newidiadau posibl i gontractau glanhau.
    - £191k o'r tanwariant ar Gynlluniau Arbedion Trawsadrannol ar sail un-tro i'r Gronfa Diswyddo corfforaethol.
    - £243k o'r Gyllideb Wrth Gefn i ariannu cost ychwanegol o ddarparu ar gyfer dyledion drwg.
    - £235k o'r Gyllideb wrth Gefn i wneud iawn am y gostyngiad mewn incwm llog, oherwydd tueddiad cyffredinol y farchnad buddsoddi.
    - £221k o ad-daliad ychwanegol dderbyniwyd ar fuddsoddiad Banc Heritable (dyled "Gwlad yr Ia") i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.
    - £851k o'r "gweddill" un-tro o Dreth Cyngor casgladwy i'r Gronfa Ddiswyddo corfforaethol.
    - £579k o'r Gyllideb Arbedion a Wireddwyd Ymlaen Llaw i gronfa benodol ar gyfer cynorthwyo Strategaeth Ariannol 2014/15, a
-

- 
- £752k o'r Gyllideb Arbedion a Wireddwyd Ymlaen Llaw i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed.
  - £90k o'r Gyllideb Wrth Gefn i gronfa benodol ar gyfer cost sefydlu'r Drefn Gwynion newydd, a
  - £164k o'r Gyllideb Wrth Gefn i'r Balansau Cyffredinol.
  - £295k o'r darpariaeth oedd heb ei ymrwymo ar sail un-tro i'r Gronfa Hyfforddi Staff.
  - £87k o'r "gweddill" un-tro ar amrywiol benawdau corfforaethol eraill i'r Balansau Cyffredinol.
  - £1.727m o'r Cyfrif Cyllid Tai i'w neilltuo, am y tro, mewn cronfa benodol, gyda golwg ar ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r rhwymedigaeth pensiwn a etifeddwyd yn anochel wrth drosglwyddo'r stoc tai.

1.4 Nodi'r gostyngiad yn lefel y cyfanswm o gronfeydd penodol, a'r cynnydd ymylol yn lefel balansau cyffredinol y Cyngor yn ystod 2013/14.

1.1 *To note the final financial position of the Council's departments for 2013/14.*

1.2 *To approve the amounts to be carried forward, where appropriate, as listed in Appendix 1 of the report, including approval for the Consultancy Department to be allowed to carry forward the full £120k underspend into the new financial year, as an exception to the usual £100k limit, due to the commercial nature of the service and their unpredictable level of income.*

1.3 *To approve the following financial transfers -*

- *£32k from the Social Services Department's accrued underspend, along with*
  - *£262k from the corporate reserve earmarked for potential overspend in this field, and*
  - *£130k from the one-off savings following a restructuring of relevant senior management – - to clear Social Services' £424k overspend in 2013/14, and give the two new heads of department a debt-free start at the commencement of 2014/15.*
  - *£15k of the Customer Care Department's underspend to be set-aside in order to create a specific redundancy costs reserve, to prepare for possible changes to cleaning contracts.*
  - *£191k from the underspend on Cross-Departmental Savings Plans on a one-off to the corporate Redundancy Reserve.*
  - *£243k from the Contingency Budget to fund the additional cost of providing for bad debts.*
  - *£235k from the Contingency Budget to compensate for the decrease in interest received, due to general investment market trends.*
  - *£221k from additional repayments received on the Heritable Bank investment ("Icelandic" debt) to the Invest to Save Reserve.*
  - *£851k from the one-off "surplus" of collectable Council Tax to the corporate Redundancy Reserve.*
  - *£579k from the Savings Realised in Advance Budget to a specific reserve **for***
-

- 
- assisting the 2014/15 Financial Strategy, and*
- *£752k from the Savings Realised in Advance Budget to the Invest to Save Reserve.*
  - *£90k from the Contingency Budget to a specific reserve for the cost of*
  - *establishing the new Complaints Procedure, and*
  - *£164k from the Contingency Budget to General Balances.*
  - *£295k from the un-committed budget provision to the Staff Training Reserve on a one-off basis.*
  - *£87k from the one-off "surplus" on various other corporate budgets to General Balances.*
  - *£1.727m from the Housing Revenue Account to be set aside, for now, in a specific reserve, with a view to applying this to reduce the pension liability unavoidably inherited on transferring the housing stock.*

*1.4 To note the reduction in the level of total specific reserves, and the marginal increase in the Council's general balances during 2013/14.*

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Er gwaethaf amgylchiadau anodd a thynhau parhaus, yn gyffredinol, mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2013/14 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol gan yr Aelodau Cabinet perthnasol a'r Tîm Rheoli, ynghyd â disgyblaeth ariannol gan benaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau.

Yn gyffredinol, bu cyllidebau rhan fwyaf adrannau'r Cyngor dan reolaeth gadarn eto eleni. Roedd sefyllfa ariannol mwyafrif yr adrannau yn lled niwtral, ond bu straen sylweddol ar gyllidebau'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarter olaf y flwyddyn.

Ym mhedwerydd chwarter 2013/14, fe wnaeth gwelliannau yn sefyllfa cyllidebau'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Ymgynghoriaeth ragori ar y disgwiliadau, yn rhannol oherwydd y gaeaf mwyn (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol), ynghyd â llwyddiant ariannol yn dilyn camau a gymerwyd i wella trefniadau busnes adrannol yr Adran Ymgynghoriaeth.

Ym mwyafrif y cyllidebau lle bu gorwariant yn 2013/14, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion perthnasol ynghylch cyllidebu 2014/15, ac mae mwyafrif y gorwariant hynny eisoes wedi'i gyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2014/15.

Ar wahân i Gwasanaethau Cymdeithasol, mae sefyllfa gweddill adrannau'r Cyngor yn gyffredinol dderbyniol a gellid neilltuo'r adnoddau corfforaethol sydd ar ôl i atgyfnerthu'r Gronfa Ddiswyddo, y Gronfa Buddsoddi i Arbed, a'r Gronfa Hyfforddi Staff, yn ogystal â gwneud dyraniad un-tro er mwyn sefydlu Trefn Gwynion newydd.

*Despite difficult circumstances and sustained tightening, generally, the final financial position of the Council's departments for 2013/14 confirms that there was effective financial management by the relevant Cabinet Members and the Management Team, together with financial discipline by the department heads and*

---

---

*budget managers.*

*Generally, the budgets of most of the Council's department have been under firm control this year again. The financial situation of the majority of departments was broadly neutral, but there was significant strain on the budgets of the Housing and Social Services Department in the final quarter of the year.*

*In the fourth quarter of 2013/14, improvements in the budgetary position of the Highways and Municipal and Consultancy Departments exceeded expectations, partly due to the mild winter (Highways and Municipal Department), and financial success following steps taken to improve departmental business arrangements of the Consultancy Department.*

*In the majority of budgets where there was an overspend in 2013/14, appropriate consideration has been given to the related requirements in the 2014/15 budgetary cycle, and most of that overspend has already been addressed in the financial strategy for 2014/15.*

*Apart from the Social Services, the position of the rest of the Council departments is generally acceptable and remaining corporate resources may be earmarked to reinforce the Redundancy Reserve, the Invest to Save Reserve, and the Staff Training Reserve, as well as making a one-off allocation to establish a new complaints procedure.*

---

*Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-*

*Yn dilyn cyflwyno'i adroddiad, roedd yr Aelod Cabinet Adnoddau am ddiolch i staff gwasanaethau oedd wedi cyfrannu at yr adroddiad cynhwysfawr hwn. Eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn dangos rheolaeth ariannol hynod effeithiol a bod y diwylliant o dynhau rheolaeth gyllidol yn mynd i fod yn hynod o werthfawr yn y cyfnod sydd i ddod. Mynegwyd pryder am ddemograffi'r Sir a'r galw sydd ar yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol i ymdrin ag achosion cymhleth. Nodwyd bod yr adran am gymryd camau penodol i ymchwilio yn ofalus i'r rhesymau dros y gorwariant, bod llawer o waith wedi'i wneud eisoes a bod mwy fyth angen ei wneud er mwyn llawn ddeall y sefyllfa. O ystyried yr holl newidiadau diweddar, trafodwyd y syniad o gael adroddiadau chwe misol gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn rhoi gwybodaeth am y datblygiadau o fewn yr adran.*

*Following the submission of his report, the Cabinet Member for Resources wished to thank the staff of the services that contributed to this comprehensive report. It was explained that the report demonstrated very effective financial control and that the culture of tightening financial control would be very valuable in coming years. Concern was expressed regarding the County's demography and the demand on the Social Services department to deal with complex cases. It was noted that the department would take specific steps to carefully investigate the reasons for the overspend, that considerable work had already been undertaken and there was now an even greater need to undertake the work in order to ascertain the situation. Given all of the recent changes, the idea of receiving a report every six months from the Social Services Department was considered in order to receive information on developments within the department.*

---

---

Barn y Swyddogion Statudol / *The views of the Statutory Officers:-*

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive:-*

Dim i'w ychwanegu. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa o ran rheolaeth ariannol y flwyddyn ac yn argymhell defnydd doeth o adnoddau un-tro.

*Nothing to add. The report summarises the position with regard to financial management during the year and recommends wise use of one-off resources.*

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer:-*

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

*Nothing to add regarding propriety.*

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer:-*

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau cywirdeb y cynnwys.

*I have collaborated with the Cabinet Member in the preparation of this report and I confirm the accuracy of the content.*

---

Barn yr aelod lleol / *Views of the Local Member.*

Dim yn berthnasol  
*Not relevant.*

---

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION  
NOTICE

Dyddiad/Date 20140610

PWNC / SUBJECT

Eitem 8 RHAGLEN GYFALAF 2013/14 – 2015/16 – Adolygiad Diwedd Flwyddyn

Item 8 CAPITAL PROGRAMME 2013/14 – 2015/16 – End of Year Review

---

PENDERFYNIAD / DECISION

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2014) y rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2.2 i 2.6 o'r adroddiad, sef:

---

- 
- cynnydd £736,000 mewn benthyca heb gefnogaeth;
  - cynnydd £578,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau;
  - cynnydd £138,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf;
  - cynnydd £341,000 mewn defnydd o gyfraniad refeniw;
  - lleihad £377,000 mewn defnydd o gronfeydd.

*To accept the report on the year-end review (31 March 2014) of the capital programme, and approve the revised funding as shown in part 2.2 – 2.6 of the report, namely:*

- *An increase £736,000 in unsupported borrowing;*
- *An increase of £578,000 in the use of grants and contributions;*
- *An increase of £138,000 in the use of capital receipts;*
- *An increase of £341,000 in the use of revenue contributions;*
- *A reduction of £377,000 in the use of funds.*

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd mewn 3 rhan:

Rhan 1: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £115m am y 3 blynedd 2013/14 – 2015/16 a'r cymhariaeth rhwng y 3ydd chwarter a diwedd y flwyddyn ariannol.

Rhan 2: Eglurhad i'r newidiadau i'r ffynonellau ariannu, sef cynnydd net oddeutu £1.416m ers yr adolygiad diwethaf.

Rhan 3: Symudiadau o 2013/14 i 2014/15, a phroffil gwariant.

Y prif gasgliadau oedd yn codi o'r sefyllfa derfynol oedd:

- Llwyddodd y Cyngor i wario bron i £45m ar gynlluniau cyfalaf yn 2013/14, gan ddenu dros £22m o grantiau penodol i'w ariannu.
- Bydd £9.07m yn llithro o 2013/14 i 2014/15, o'i gymharu â'r llithriad o £7.6m ar ddiwedd 2012/13. Er hynny, ni welir colled mewn grant, nac unrhyw ffynhonnell ariannu arall.

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynnyddoedd mewn proffil gwario a gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

*The submitted report was divided into three parts:*

*Part 1: Analysis by Department of the £115m capital programme for the 3 years 2013/14 – 2015/16 and a comparison between the third quarter and the end of the financial year.*

*Part 2: An explanation of the changes to the sources of financing for the net increase of approximately £1.416m since the last review.*

*Part 3: Movements from 2013/14 to 2014/15, and spending profile.*

---

---

*The main conclusions arising from the final position were:*

- *The Council managed to spend nearly £45m on capital projects in 2013/14, and it has attracted over £22m of specific grants to finance this.*
- *Some £9.07m will slip from 2013/14 to 2014/15 compared with slippage of £7.6m at the end of 2012/13. However, no loss of grant is foreseen or any other financing resource.*

*It is necessary to ensure appropriate financing arrangements for the Council's capital spending plans, and the formal Cabinet must approve the capital programme and its sources of funding. Incorporating funding via grant is a point of order, but it is also necessary to deal with situations where there has been a change in expenditure profiles between years and the value of capital receipts and contributions.*

---

*Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-*

*Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau, nodwyd y ffaith fod y Cyngor wedi gwario ar gynlluniau sylweddol yn ystod y cyfnod diweddar ac wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y budd yn cael ei gadw yn lleol.*

*Following the submission of the report by the Cabinet Member for Resources, the fact was noted that the Council had spent on major schemes recently and had made every effort to ensure that the benefit was kept local.*

---

*Barn y Swyddogion Statudol / The views of the Statutory Officers:-*

*1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-*

*Mae rheolaeth effeithiol o'r Gyllideb Gyfalaf yn eithriadol o bwysig o ran y defnydd gorau o arian cyhoeddus a gwireddu buddiannau i drigolion ac mae'r papur yn adrodd ar hynny. Yn amlwg, mae elfen o lithriad yn anorfod mewn rhai meysydd ond mae'n dda nodi nad yw hyn wedi arwain at unrhyw golled adnoddau. Wedi dweud hynny, mae unrhyw lithriad wedi golygu ail-broffilio gwireddu buddiannau i drigolion ac efallai bod rhai o'r materion hyn yn haeddu sylw craffu yn ystod y flwyddyn.*

*Effective management of the Capital Programme is exceptionally important in terms of the best use of public money and the realisation of benefits for residents and this paper reports on this. Clearly, an element of slippage is unavoidable in some cases but it is good to note that this has not led to any loss of resources. Having said that, any slippage does mean re-profiling benefits to residents and there may be some matters here that merit the attention of scrutiny during the year.*

*2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-*

*Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.*

*Nothing to add regarding propriety.*

*3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-*

---

---

**Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys.**

*I have collaborated with the Cabinet Member in the preparation of this report and I confirm the accuracy of the content.*

---

Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member

Dim yn berthnasol  
*Not relevant.*

---

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION  
NOTICE

Dyddiad/Date 20140610

PWNC / SUBJECT

Eitem 9 Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion

*Item 9 The Annual Report of the Children and Adults Strategic Safeguarding Panel*

---

PENDERFYNIAD / DECISION

Cymeradwyo'r camau sydd wedi eu cymryd i wireddu Polisi Strategol y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2013 gan bwysleisio'r angen i brofi fod gweithredu'r camau yn cael yr effaith briodol.

*To approve the steps taken to implement the Children and Adults Strategic safeguarding Panel's Strategic Policy which was adopted by the Cabinet in March 2013 emphasising the need to prove that implementing these steps is having the appropriate effect.*

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru fod pob cyngor yn datblygu strategaeth ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Pwrpas y strategaeth fydd bodloni aelodau a swyddogion arweiniol fod gan staff y Cyngor ymwybyddiaeth o faterion diogelu ac y byddant yn ymateb yn briodol ac effeithiol iddynt.

Mae datblygiad y strategaeth Diogelu wedi cael ei arolygu'n ddiweddar gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r CSSIW. Mae ymateb ysgrifenedig Estyn wedi'i dderbyn ac yn cymeradwyo'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma ond yn nodi'r angen i ddatblygu ffyrdd o fonitro dealltwriaeth staff o'r gweithdrefnau ac yn eu

---



---

gweithredu. Nid yw ymateb ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru na'r CSSIW wedi dod i law hyd yn hyn.

*The Welsh Government's expectation is that all councils will develop a strategy for safeguarding children and adults. The purpose of the strategy will be to satisfy lead members and officers that the Council's staff are aware of safeguarding issues and that they will respond appropriately and effectively to them.*

*The development of the safeguarding strategy has been inspected recently by Estyn, CSSIW and the Wales Audit Office. A written response by Estyn has been received and they have commended the work that has been undertaken to date but note the need to develop ways to monitor staff's understanding of the procedures and their implementation. A written response from the Wales Audit Office and CSSIW is yet to be received.*

---

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views:-*

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal, eglurwyd ei bod yn bwysig pwysleisio fod hyn yn gyfrifoldeb corfforaethol nid dim ond cyfrifoldeb yr Adrannau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodwyd bod strwythurau corfforaethol mewn lle erbyn hyn a bod llawer o waith wedi'i wneud yn y maes diogelu. Pwysleisiwyd y ffaith ei bod yn bwysig derbyn yr adroddiad ond ei bod yn bwysicach fyth ystyried effaith y datblygiadau hyn.

*Following the submission of the report by the Cabinet Member for Care, it was explained that it was important to emphasise that this was a corporate responsibility and not the sole responsibility of the Education and Social Services Departments. It was noted that there were now corporate structures in place and that considerable work had been undertaken in the safeguarding field. The fact was emphasised that it was important to accept the report but that it was even more important to consider the impact of these developments.*

---

Barn y Swyddogion Statudol / *The views of the Statutory Officers:-*

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Mae'n bwysig iawn bod y Cabinet yn bodloni ei hun ar gynnydd gyda'r gwaith diogelu gan mai'r Cabinet ei hun a awdurdododd y trefniadau hynny. Fel mae'r adroddiad yn crybwyll, rydym wedi medru manteisio ar farn allanol ar y trefniadau hyn yn y misoedd diwethaf ac mae'r ymateb a dderbyniwyd hyd yn hyn yn awgrymu ei fod yn symud i'r cyfeiriad iawn er bod peth gwaith eto i 'w wneud. Wrth gwrs, mewn gwirionedd, mae'r DASG o gadw llygad a sicrhau trefniadau diogelu yn un y mae angen cadw golwg arno yn barhaus.

*It is very important that the Cabinet satisfies itself on the progress with the work of safeguarding because it was the Cabinet itself who authorised these arrangements. As the report mentions, we have been able to take advantage of external views on these arrangements in recent months and the response received so far suggests that it is moving in the right direction*

---

---

*although some work has yet to be completed. Of course, in reality, the TASK of checking and ensuring safeguarding procedures is one that needs to be monitored on an ongoing basis.*

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Sefydwyd y Panel Diogelu gan y Cabinet yn Nhachwedd 2012 er mwyn cael sicrwydd o drefniadau llywodraethu cadarn yn y maes diogelu plant ac oedolion. Mae'n bwysig fod y Cabinet yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Panel er mwyn cyflawni ei ddyletswydd i oruchwyllo'r trefniadau. 'Rwy'n fodlon fod yr adroddiad yma yn fodd o ganiatáu i hynny ddigwydd.

*The Safeguarding Panel was established by the Cabinet in November 2012 in order to be assured of sound governance arrangements in the field of safeguarding of children and adults. It is important that the Cabinet receives regular reports from the Panel to fulfil its duty to supervise the arrangements. I am satisfied that this report is a means of allowing that to happen.*

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Nodaf fod yr adroddiad gerbron yn adrodd yn ôl-syllol ar gamau sydd wedi eu cymryd i wireddu polisi strategol Diogelu Plant ac Oedolion, ac ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r camau hyn. Bydd y Panel Strategol Diogelu a'r gwaith perthnasol a rôl yn parhau, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Strategol, ond bydd modd gweithredu a chyflawni fel bo angen o fewn adnoddau cyfredol. Felly, er eglurder, cadarnhaf nad oes cais yma am ddarpariaeth adnoddau i'r perwyl, tu hwnt i beth sydd eisoes yn ei le.

*I note that the report being considered deals retrospectively with steps that have been taken to realise the strategic policy for Safeguarding Children and Adults, and there will be no additional financial implications if the Cabinet approves these steps. The Strategic Safeguarding Panel's role and relevant work continues, and this is included in the Strategic Plan, but it is possible to operate and deliver as required within existing resources. Therefore, for clarity, I confirm that there is no request here for resource provision beyond what is already in place.*

---

Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member

Dim yn berthnasol  
*Not relevant.*

---

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION  
NOTICE

Dyddiad/Date 20140610

PWNC / SUBJECT

Eitem 10 Canllaw Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ar y Tir

*Item 10 Onshore Wind Energy Supplementary Planning Guidance*

---

PENDERFYNIAD / DECISION

- Ymgorffori'r newidiadau yn y Canllaw Cynllunio Atodol a'i fabwysiadu i gael ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio am Dyrbinau Gwynt ar y Tir o fewn Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.
- Dirwprwyo'r hawl i gywiro unrhyw wallau ieithyddol ac ail rifo paragraffau o fewn y ddogfen derfynol cyn ei fod yn cael ei argraffu a'i osod ar safle we y Cyngor, yn y swyddfeydd perthnasol ac mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.
- *To incorporate the changes in the Supplementary Planning Guidance and to adopt it to be used as a material consideration when dealing with planning applications for Onshore Wind Turbines within the Gwynedd Planning Authority Area.*
- *To delegate the rights to correct any linguistic errors and re-number paragraphs in the final document before it is printed and placed on the Council's website, in the relevant offices and in public libraries.*

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Mae Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) yn ffordd o nodi canllawiau mwy manwl ynglŷn â'r ffordd y bydd polisiau cynllunio yn cael eu defnyddio mewn amgylchiadau neu feysydd penodol. Felly ni ellir ei ddefnyddio i greu **polisi newydd**. Proses y cynllun datblygu yw'r dull o gynhyrchu polisi newydd ar gyfer pwnc penodol, a'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar Cyd (Gwynedd a Môn) fyddai hynny yn yr achos yma.

Os caiff ei fabwysiadu bydd y ddogfen hon yn ategu'r polisiau yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009. Bydd y CCA yn ystyriaeth berthnasol wrth ymdrin â cheisiadau presennol ac i'r dyfodol hyd nes y bydd y cynllun uchod yn cael ei ddisodli gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fabwysiedir ac/ neu unrhyw CCA perthnasol y gellir ei lunio i gefnogi ei bolisiau.

Cafwyd cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ar ddogfen ddrafft o'r CCA rhwng 13 Rhagfyr 2012 a 31 Ionawr 2013. Arweiniodd hyn at 80 o ymatebion ac oddeutu 680 o sylwadau unigol.

---

---

Yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion yma, gwybodaeth newydd a newid mewn amgylchiadau, argymhellwyd nifer o newidiadau arfaethedig i'r CCA. Oherwydd y nifer o newidiadau a'r diddordeb cyhoeddus, cafwyd hawl dirprwyedig i gynnal cyfnod pellach o ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig yma. Cafwyd ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig yma rhwng 12 Rhagfyr 2013 a 6 Chwefror 2014.

Mae'r CCA yn amlinellu'r materion sydd eu hangen/ neu sy'n ddelfrydol i'w gyflwyno efo cais ynghyd â'r gwahanol ystyriaethau wrth ddelio efo'r math yma o geisiadau. Golyga hyn ei fod o help i ymgeiswyr, swyddogion, y pwyllgor cynllunio a'r cyhoedd i ddeall oblygiadau'r fath geisiadau.

Oherwydd hyn byddai mabwysiadu'r CCA yn golygu y gellid rhoi pwysau iddo fel ystyriaeth berthnasol wrth ddelio efo ceisiadau cynllunio am dyrbinau gwynt ar y tir.

Tra bod yna nifer sylweddol o sylwadau ar holl agweddau o'r CCA, nodir isod y prif faterion sydd wedi cael ystyriaeth wrth greu y fersiwn terfynol:

- 1] Canllawiau Clir
- 2] Uchafswm Uchder Tyrbinau
- 3] Effaith Sŵn a Phellteroedd Gwahanu
- 4] Uchafswm maint Pŵer o Ddatblygiadau

Os ceir penderfyniad gan y Cabinet i fabwysiadu'r CCA yna bydd yn cael ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth ddelio efo ceisiadau am Ynni Gwynt ar y Tir o hyn ymlaen.

*The Supplementary Planning Guidance (SPG) is a way of noting more detailed guidelines regarding the way the plan's policies will be used in particular circumstances or fields. Therefore, it cannot be used to create **new policy**. The process of the development plan is the method of producing a new policy for a particular topic and this would be the process of preparing the Joint Local Development Plan (Gwynedd and Anglesey) in this case.*

*If it is adopted, this document will support the policies in the Gwynedd Unitary Development Plan 2009. The SPG will be a material consideration when dealing with current and future applications until the above plan is replaced by the adopted Joint Local Development Plan and/or any relevant SPG that could be established to support its policies.*

*A period of public consultation was held on a draft document of the SPG between 13 December 2012 and 31 January 2013. This led to 80 responses with approximately 680 individual observations.*

*Following an analysis of these responses, new information and a change in circumstances, a number of proposed changes were recommended to the SPG. Due to the number of changes and the public interest delegated rights were obtained to hold a further period of public consultation on these proposed changes. A consultation on these proposed changes was held between 12 December 2013 and 6 February 2014.*

---

---

*The SPG outlines the issues that are required or desired to be submitted with an application along with the different considerations when dealing with these types of applications. This means that it helps applicants, officers, the planning committee and the public to understand the implications of such applications.*

*Consequently, adopting the SPG would mean that weight could be attached to it as a material consideration when dealing with planning applications for onshore wind turbines.*

*Whilst there are a substantial number of observations on all aspects of the SPG, the main issues considered when creating a final version are noted below:*

- 1] Clear Guidance*
- 2] Maximum Height of Turbines*
- 3] Noise Impact and Separation Distances*
- 4] The Maximum Power of Developments*

*If the Cabinet decides to adopt the SPG it will be used as a material consideration when dealing with applications for Onshore Wind Energy from now on.*

---

*Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-*

*Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cynllunio, eglurwyd mai'r hyn oedd yma oedd canllaw atodol yn hytrach na pholisi ac mai'r nod oedd roi help llaw wrth i drigolion y Sir wneud ceisiadau cynllunio.*

*Following the submission of the report by the Cabinet Member for Planning, it was explained that this was supplementary guidance and not policy and the aim was to provide a helping hand for the residents of the County when submitting planning applications.*

---

*Barn y Swyddogion Statudol / The views of the Statutory Officers:-*

*1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-*

*Mae'n amlwg bod ceisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig ag ynni gwynt yn aml yn gynhennus ac yn denu barn gwahanol iawn gan bobl o fewn a thu hwnt i'w cymunedau. Mewn cyd-destun felly, mae cael canllaw cynllunio sydd mor glir â phosib yn bwysig eithriadol. Mae'n amlwg o'r nifer o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y canllaw bod cryn ddiddordeb yn y mater ac, nid yn annisgwyl, mae nifer o sylwadau yn mynegi safbwyntiau gwahanol. Mae'n anorod felly na all y canllaw blesio pawb mewn maes sydd yn denu barn mor wahanol ond mae'n ceisio cynnig arweiniad cliriach ar y mater.*

*Evidently, planning applications that are related to wind energy are often contentious and draw very different opinions from people within and beyond their communities. In such a context, having planning guidance that is as clear as possible is extremely important. It is obvious from the number of responses that were received to the consultation on the guidance that there is considerable interest in the matter, and unsurprisingly, several observations express different viewpoints.*

---

---

*It is therefore unavoidable that the guidance cannot please everyone in a field that attracts such differing opinions, but it does seek to offer clearer guidance on the matter.*

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-

Bwriad y Canllaw ydi rhoi arweiniad a chymorth i ymgeiswyr ac mae'n ffurfiol ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau. Nid yw'n bosib iddo ffurfio polisi newydd ac nid oes modd chwaith iddo fod yn gwbl gaeth a phendant ar fanylion ceisiadau gan fod raid trin pob cais ar ei haeddiant. 'Rwy'n fodlon o safbwynt priodoldeb fod y ddogfen yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng y materion hyn.

*The purpose of the guidance is to offer assistance to applicants and it forms a material consideration in making planning decisions. It is not possible for it to create new policy neither is it possible for it to be totally prescriptive in relation to details as each application has to be considered on its own merits. I am satisfied as regards propriety that the document strikes the right balance between these matters.*

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

*Nothing to add from a financial propriety perspective.*

---

Barn yr aelod lleol / *Views of the Local Member*.

Dim yn berthnasol  
*Not relevant.*

---

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION  
NOTICE

Dyddiad/Date 20140610

PWNC / SUBJECT  
Eitem 11 Trefn Gwynion

*Item 11 The Complaints Procedure*

---

PENDERFYNIAD / DECISION

Mabwysiadu trefn gwynion newydd i'r Cyngor.

*To adopt a new complaints procedure fo the Council.*

---

---

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Nodweddion y drefn newydd ydi :-

- Pwyslais ar ddatrys cwynion a gwneud hynny yn gyflym. I hybu hyn dau gam sydd i'r drefn newydd, sef datrys anffurfiol ac ymchwiliad ffurfiol.
- Defnyddio Galw Gwynedd fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer pob cwyn ffurfiol. Bydd hyn yn caniatáu cysondeb wrth dderbyn a chofnodi cwynion, cynorthwyo cwynwyr a monitro atebion.
- Sefydlu tîm cydlynu cwynion gyda chyfrifoldeb am weinyddu'r drefn. Bydd y tîm yn cynnwys swydd benodol yn Galw Gwynedd gyda'r cyfrifoldeb o roi cymorth i'r cwynydd, graddio'r gŵyn, ceisio datrysiaid cyflym iddi a monitro cynnydd ar ymchwiliadau ffurfiol. Bydd y tîm hefyd yn cynnwys un o'r Cyfreithwyr fydd â'r cyfrifoldeb i oruchwylio ymchwiliadau mwy cymhleth eu natur.
- Y gallu i ddysgu gwersi oddi wrth gwynion drwy adroddiadau trosolwg fydd yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet, ac yn achlysurol yn ôl yr angen, i'r Cabinet, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Bydd mabwysiadu'r drefn newydd yn dod â buddiant penodol i'r dinesydd drwy ganolbwyntio ar y datrysiaid yn hytrach na'r broses. Bydd yn caniatáu ymdrin yn gyflymach â chwynion, gan ddiddymu un cam o'r drefn bresennol sydd yn eithaf llafurus a hir wyntog.

Bydd y drefn newydd yn caniatáu cydlynu cwynion sydd yn cwmpasu mwy nag un adran yn well, ac hefyd cydlynu cwynion sy'n cynnwys asiantaethau neu bartneriaid allanol.

---

Drwy sefydlu bas-data canolog, cynhwysfawr, bydd modd cymryd trosolwg o'r

---

---

patrwm cwynion a dysgu gwersi fel sefydliad. Ar hyn o bryd mae'r wybodaeth werthfawr sydd ynghlwm mewn cwynion yn tueddu i gael ei cholli.

Rhagwelir y bydd y drefn yn cyd-fynd yn well hefo diwylliant newydd y Cyngor o rymuso staff i wneud penderfyniadau a chyflawni un o ffrydiau gwaith prosiect "Ffordd Gwynedd".

Bydd cost cychwynnol un tro o oddeutu £90,000 er mwyn sefydlu'r drefn newydd. Mae'r gost yma yn deillio o gyflogi swyddog penodol yng Ngallw Gwynedd am gyfnod o hyd at dair blynedd er mwyn caniatáu i'r trefniadau newydd ymsefydlu. Disgwylir ar ôl y cyfnod cychwynnol hwn y bydd y trefniadau ymdrin â chwynion newydd wedi eu hymgorffori yng ngwaith dydd i ddydd yr adrannau. Pe byddai'r Cabinet yn mabwysiadu'r drefn newydd gellir cwrdd â'r gost un-tro o £90,000 drwy ddefnyddio elfen o danwariant 2013/14 ar gyllidebau corfforaethol fel a ystyriwyd yn gynharach yn yr adroddiad Alldro Refeniw.

Mae'r drefn newydd yn cyd-fynd â'r polisi enghreifftiol ar gwynion a phryderon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac a luniwyd dan oruchwyliaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae i hyn y fantais ei fod yn gyson gyda threfniadau cwynion cyrff cyhoeddus eraill gan wneud cyflwyno cwyn yn haws i'r cyhoedd ar draws sefydliadau cyhoeddus.

Ac eithrio derbyn adroddiadau am wersi i'w dysgu, nid oes rôl benodol i gynghorwyr, ac yn arbennig aelodau Cabinet wrth ymdrin â chwynion. Barn yr Ombwdsmon yw nad yw yn briodol i'r Cabinet fod yn rhan o ymchwiliad i gwynion unigol. Mae trefniadau mewnol y Cyngor yn caniatáu i unrhyw gynghorydd sydd yn anfodlon â gweithrediad adran benodol i ddwyn ei bryder i sylw yr aelod Cabinet perthnasol. Mae'n fwriad parhau gyda'r trefniant yma ar gyfer datrys pryderon gan gynghorwyr, ond bydd raid cymryd gofal nad yw Aelod Cabinet yn camu i mewn i'r rôl o ymchwilio i gwynion penodol gan aelodau o'r cyhoedd.

*The characteristics of the new procedure are:-*

- An emphasis on resolving complaints, and doing so swiftly. To promote this, the new procedure is a two-step process, comprising of an informal resolution and a formal investigation.*
  - The use of Galw Gwynedd as a central contact point for all formal complaints. This will allow consistency in receiving and recording complaints, assisting complainants and monitoring responses.*
  - Establishing a complaints coordination team with responsibility for the administration of the procedure. The team will include a specific post within Galw Gwynedd responsible for assisting the complainant, grading the complaint, seeking a swift resolution and monitoring the progress of formal investigations. The team will also include one of the Solicitors, with responsibility for the oversight of more complex investigations.*
  - The ability to learn lessons from complaints by means of overview reports to be submitted to the Corporate Management Team and the Cabinet Member and, occasionally and as required, to the Cabinet, in order to ensure*
-



---

*continuous improvement.*

*Adopting the new procedure will bring specific benefits to the citizen by focusing on the resolution rather than the process. It will allow for complaints to be dealt with more swiftly, by abolishing one step of the current process which is fairly labour-intensive and lengthy.*

*The new procedure will allow complaints which involve more than one department to be better coordinated, and will enable the coordination of complaints which involve external agencies or partners.*

*By establishing a central, comprehensive database, it will be possible to keep an overview of the pattern of complaints and to learn lessons as an organisation. Currently, the valuable information contained in complaints tends to be lost.*

*It is anticipated that the procedure will be better aligned with the Council's new culture of empowering staff to make decisions and to deliver one of the work streams of the "Gwynedd Way" project.*

*Establishing the new procedure will incur a one-off initial cost of around £90,000. This cost is to employ a specific officer within Galw Gwynedd for a period of up to three years to allow the new arrangements to embed. Following this initial period, it is expected that the arrangements to deal with new complaints will be incorporated within the day-to-day work of the departments. If the Cabinet adopted the new procedure, the one-off cost of around £90,000 could be met by utilising an element of 2013/14 underspend on corporate budgets.*

*This new procedure is in accordance with the model concerns and complaints policy published by the Welsh Government, and produced under the guidance of the Public Services Ombudsman for Wales. This is advantageous as it is consistent with the complaints procedures of other public bodies, making the submission of a complaint easier for members of the public across public bodies.*

*With the exception of receiving reports about lessons to be learnt, councillors, and Cabinet members in particular, have no specific role in dealing with complaints. The Ombudsman is of the view that it is not appropriate for the Cabinet to participate in investigations into individual complaints. The Council's internal arrangements allow any councillor who is unhappy with the operation of a specific department to bring the concern to the attention of the relevant Cabinet member. The intention is for this arrangement to continue in relation to the resolution of councillors' concerns, but care must be taken that a Cabinet member does not step into the role of investigating specific complaints by members of the public.*

---

Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gofal Cwsmer, eglurwyd mai'r hyn oedd yma oedd cyfundrefn o ddatrys cwynion yn gyflym ac yn effeithiol gan ganolbwyntio ar y dinesydd a datrysiaid y gŵyn. Eglurwyd mai cryfder y drefn newydd hon yw bod pob cŵyn anffurfiol a ffurfiol yn cael ei chofnodi mewn un man a bod y sawl a benodir i'r swydd am y cyfnod o dair blynedd yn mynd i weithredu fel

---

---

asiant i'r cyhoedd gan ymchwilio ar ran yr achwynwr. Trafodwyd y ffaith fod angen monitro a mesur y drefn newydd a rhoi cyhoeddusrwydd ddigonol er mwyn sicrhau bod trigolion y Sir yn deall y camau. Eglurwyd nad oes yma unrhyw fwriad i danseilio rôl aelodau lleol wrth iddynt ymdrin â chwynion eu hetholwyr ond bod yma yn hytrach gyfle i gwynion arwain at wella gwasanaethau'r Cyngor.

Eglurwyd y byddai'r Aelod Cabinet yn cymryd penderfyniad ar ôl 6 mis o weithredu'r drefn newydd ynglyn â pha mor aml y byddid yn cyflwyno adroddiadau i'r Cabinet ar gwynion.

*Following the submission of the report by the Cabinet Member for Customer Care, it was explained that this was a procedure for resolving complaints quickly and effectively by concentrating on the citizen and resolving the complaint. It was explained that the strength of this new procedure was that all informal and formal complaints would be recorded in one location and that the individual appointed to the post for a three year period would operate as an agent for the public and would investigate on behalf of the complainants. A discussion was held on the fact that there was a need to monitor and measure the new procedure and to provide sufficient publicity in order to ensure that the County's residents understood the steps. It was explained that there was no intention of undermining the role of the local member as they dealt with their electors' complaints; rather, this was an opportunity for complaints to result in improving the Council's services.*

*It was explained that the Cabinet Member would decide after six months of implementing the new procedure regarding how often reports should be submitted to the Cabinet on complaints.*

---

Barn y Swyddogion Statudol / *The views of the Statutory Officers:-*

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive:-*

Mae cael trefn gwynion effeithiol yn gwbl allweddol i unrhyw gorff cyhoeddus ac mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn, sydd wedi eu cytuno'n fewnol, yn cynnig gwelliant amlwg ar y trefniadau cyfredol. Mae'n amlwg bod angen buddsoddiad tymor byr i weithredu ar hyn ac mae modd sicrhau'r buddsoddiad hynny. Awgrymaf felly bod y Cabinet yn derbyn yr argymhellion.

*An effective complaints procedure is vital for any public body and the proposals in this report, which have been agreed internally, offer a distinct improvement on the present arrangements. It is obvious that there is need for a short term investment to implement this and there is a way to secure that investment. I suggest therefore that the Cabinet accept the proposals.*

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer:-*

Rwyf wedi cael mewnbwn i lunio'r trefniadau newydd ac yn fodlon â hwy o safbwynt priodoldeb.

*I have contributed to the development of the new arrangements and am*

---

---

*satisfied with them as regards propriety.*

**3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-**

Cadarnhaf gywirdeb cynnwys paragraff 7 o'r adroddiad 'Trefn Gwynion', sef byddai £90,000 yn gyllideb ddigonol er mwyn sefydlu swydd benodol yn Galw Gwynedd i weinyddu'r drefn gwynion newydd am gyfnod o 3 blynedd (ac i sefydlu'r bas-data canolog, cynhwysfawr, fydd yn caniatáu ymdrin yn gyflymach â chwynion er budd i'r dinesydd).

Ymhellach, cadarnhaf pe byddai'r Cabinet yn penderfynu mabwysiadu'r drefn a argymhellir yma, gellir cwrdd â'r gost un-tro yma drwy neilltuo elfen o danwariant ar gyllidebau corfforaethol wrth gau'r cyfrifon (sylwer fod argymhelliad perthnasol yn yr adroddiad 'Alldro 2013/14' sydd hefyd ar raglen y cyfarfod hwn o'r Cabinet).

*I can confirm the accuracy of the content of paragraph 7 of the 'Complaints Procedure' report, that £90,000 is a sufficient budget to establish a specific post within Galw Gwynedd to administer the new complaints procedure for a period of 3 years (and to establish a central, comprehensive database to enable complaints to be dealt with more quickly for the citizen's benefit) Furthermore, I can confirm that if the Cabinet decides to adopt the procedure as is recommended here, that this one-off cost can be met by allocating an element of underspend on corporate budgets in closing the accounts (note that there is a relevant recommendation in the '2013/14 Outturn' report which is also in this Cabinet meeting's agenda.*

---

**Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member:**

Dim yn berthnasol

*Not relevant.*

---